



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cynllun Marchnata Pren

Adroddiad cryno ar ymatebion i ymgynghoriad
cyhoeddus

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad?.....	3
Sut y gwnaethom ddadansoddi ymatebion.....	3
Materion allweddol	4
Canlyniadau a chrynodeb o'r atebion i gwestiynau	5
Adran 1: Sut rydym yn marchnata ein pren yn unol â chyfres o amcanion clir (C1-C4).....	5
Adran 2: Sut rydym yn rhoi gwybod i chi am lefelau'r pren sydd ar gael, lefelau'r pren rydym yn bwriadu eu cynhyrchu ar gyfer y cyfnod, a sut y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi (C5, C6)	6
Adran 3: Beth yw ein dulliau gwerthu neu pa ddulliau gwerthu y gallem eu defnyddio? (C7-C24)	7
Adran 4: Sut rydym yn pennu ein dull gweithredu o ran gwerthu ein cynhyrchion pren mewn ffordd sy'n "ddeallus o ran carbon" (C25, C26)	13
Adran 5: Sut rydym yn cyhoeddi ein ffigurau perfformiad o ran gwerthiannau.....	14
Adran 6: Beth yw ein safonau gwasanaethau cwsmeriaid neu beth y gallent fod (C29).....	16
Yn olaf	16
Y camau nesaf	16
I gloi....	16
Atodiad 1 – Rhestr o ymatebwyr	18

Cyflwyniad

Nod yr ymgynghoriad oedd bwydo i ddatblygiad ein Cynllun Marchnata Pren nesaf, sy'n esbonio ein hymagwedd at gynaeafu a marchnata pren o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru. Rhaid inni gynhyrchu'r cynllun hwn i helpu i gynnal ein hardystiad gan Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig ac i sicrhau ein bod ni'n cyflawni mewn perthynas â'r amcanion polisi perthnasol a nodir yn strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coed a choetiroedd yng Nghymru, "Coetiroedd i Gymru".

Parodd yr ymarfer ymgynghori am 12 wythnos, o 10 Gorffennaf 2015 i 2 Hydref 2015, ac roedd yn cynnwys y canlynol:

- Cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ein gwefan, a drefnwyd yn chwe adran, ac a oedd yn seiliedig ar gyfres o gynigion sy'n ymwneud â'r hyn rydym am ei gyflawni a sut rydym am weithio. Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gwblhau ffurflen ymateb a'i dychwelyd atom drwy e-bost neu drwy'r post.
- Cynhaliwyd lansiad yn Sioe Frenhinol Cymru ar 21 Gorffennaf 2015, ac anfonwyd gwahoddiad at oddeutu 100 o randdeiliaid i fynychu cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb.
- Cyswllt uniongyrchol â grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Panel Cynghori Gweinidogol ar Strategaeth Coetiroedd, a Confor.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus a ffurfiol hwn, a'r modd rydym yn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Ceir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad 1. Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad.

Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad?

Derbyniwyd 18 o ymatebion o amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion yn y sector coedwigaeth (gweler y rhestr yn Atodiad 1). Crynhoir y rhain isod. Er bod y nifer o ymatebion yn isel, roedd yr ymatebwyr yn cynnwys cyrff masnach sy'n cynrychioli ystod eang o fusnesau. Derbyniwyd yr holl ymatebion yn electronig a, chydag ambell i eithriad, cwblhaodd yr holl ymatebwyr y cwestiynau i gyd. Gwnaethom gydnabod pob ymateb wrth iddynt gyrraedd.

Sector	Nifer yr ymatebion	%
Sector cyhoeddus	2	11%
Sector preifat	9	50
Cymdeithasau masnach	2	11%
Trydydd sector	2	11%
Unigolion	2	11%
Arall	1	6%
CYFANSWM	18	100.0%

Sut y gwnaethom ddadansoddi ymatebion

Roedd y cwestiynau naill ai'n gofyn am ateb ar ffurf sylwadau disgrifiadol, ansoddol, neu'n gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion a wnaed gennym ac i roi rhagor o fanylion os oeddent yn anghytuno. Fodd bynnag, mewn sawl achos roedd hyd yn oed yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â chynnig wedi cynnig sylwadau ychwanegol, ac felly rhoddwyd ystyriaeth i'r rhain hefyd.

Materion allweddol

Rydym yn ystyried ymatebion ac adborth yr ymarfer ymgynghori ac yn edrych ar sut gall y rhain lywio ein Cynllun Marchnata Pren nesaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod ein rhanddeiliaid yn deall yr heriau a'r cyfleoedd sy'n ein hwynebu yn y sector coedwigaeth yng Nghymru a sut bydd y rhain yn llywio ac yn dylanwadu ar y Cynllun Marchnata Pren.

Mae'n adeg anodd yn ariannol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n debygol bydd ein cyllid Cymorth Grant yn cael ei gwtogi gan £6.1 miliwn yn 2016-2017, sef toriad o 7%. Mae hyn yn destun cadarnhad gan Lywodraeth Cymru a chytundeb terfynol gan y Cynulliad ym mis Mawrth. Gallwn ddisgwyl rhagor o doriadau fel hyn dros y tair blynedd nesaf, felly mae angen i ni ganolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud gyda'r adnoddau sydd ar gael inni.

Mae gennym raglen o adolygiadau gwasanaeth i edrych ar bob agwedd o'n busnes, a byddant yn gofyn cwestiynau sylfaenol am y math o sefydliad yr hoffwn fod yn y dyfodol ac ym mhle'r ydyn ni'n ychwanegu'r gwerth mwyaf wrth reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yng Nghymru. Mae un o'r adolygiadau gwasanaeth hyn yn gysylltiedig â rheoli tir, sy'n cynnwys coedwigaeth. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys asesiad o rai newidiadau posibl yn y rhannau o'r busnes sy'n ymwneud â chynaeafu a marchnata pren. Gwerthusir yn ofalus yr effaith ar gyflawni polisi ac ar y sector, a byddwn yn hysbysu rhanddeiliaid ynghylch ein cynnydd.

Digwydd hyn wrth i ddeddfwriaeth newydd gael ei pharatoi yng Nghymru a fydd yn rhoi cyfrifoldebau newydd arnom. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i waith a wneir gan y sector cyhoeddus ddarparu datblygiad cynaliadwy, a buddiannau a chanlyniadau lles – ar gyfer yr amgylchedd, pobl, yr economi a'n cymunedau. Yn yr un modd, bydd Bil yr Amgylchedd, y disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol erbyn gwanwyn 2016, yn sicrhau y byddwn yn rheoli'r amgylchedd naturiol mewn modd cydgysylltiedig.

Mae pren, fel nwydd masnachol, yn agored i newidiadau yn amodau'r farchnad. Ers i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi, bu newidiadau yn y gyfradd gyfnewid a newidiadau i bris pren, sydd oll â goblygiadau i'n penderfyniadau cynaeafu a marchnata yn awr ac yn y dyfodol. Mae angen i Gyfoeth Naturiol Cymru fod yn hyblyg er mwyn ymateb i amodau'r farchnad, ac mae angen deall ein penderfyniad yng nghyd-destun y sector yng Nghymru a'r buddiannau cyhoeddus ehangach a gyflenwir gan Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru. Mae angen inni gydbwyso hyn gydag ein hanghenion busnes, a dyna pam y cymerwn fwy o amser i adolygu'r rhan hon o'n busnes.

Dylanwadir yn fawr ar brisiau pren yn y DU gan y pris y telir am bren sydd wedi'i fewnforio, o gymharu â phris pren sy'n dod o gyflenwad cynhenid. Un o'r prif ffactorau wrth bennu pris yw cyfradd gyfnewid y bunt o gymharu ag arian y mewnforwyr – Krona Sweden, yr Ewro, ac i raddau llai, Doler Canada. Ffactor arall sy'n dylanwadu ar alw yw perfformiad economïau byd-eang a'r DU; fel rheol, mae twf cryf yn dod â galw cryf am bren yn ei sgil.

Dros y misoedd diwethaf, bu lleihad nodedig mewn twf byd-eang (yn enwedig yn Tsieina), a bu diffyg twf mewn economïau dylanwadol eraill, megis yr Almaen a'r DU. Mae'r DU hefyd yn profi cyfnod maith lle mae'r bunt yn gymharol gryf o gymharu ag arian y cynnyrch a fewnforir. Mae'r ffactorau hyn yn rhoi cynhyrchwyr coed ym Mhrydain dan bwysau ar ôl cyfnod bywiog iawn yn y 18 mis blaenorol.

I grynhoi, nid ydym mewn sefyllfa, hyd yma, i egluro'n fanwl ein cyfeiriad gogyfer â'r dyfodol. Rydym yn ymroddedig i fod mor agored â phosibl, ond nid oes gennym atebion ar hyn o bryd i'r holl gwestiynau a'r materion a fynegwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori.

Canlyniadau a chrynodeb o'r atebion i gwestiynau

Adran 1: Sut rydym yn marchnata ein pren yn unol â chyfres o amcanion clir (C1-C4)

1: A ydych yn cytuno â'n cynnig i gadw nodau ac amcanion y Cynllun Marchnata Pren presennol?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	5	8	2	1	1
% *	27.8%	44.4%	11.1%	11.1%	7.7%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 18)

C2: Os ydych yn anghytuno â'r nodau a'r amcanion presennol, nodwch beth sydd ar goll neu beth y dylid ei newid, yn eich barn chi.

Roedd cefnogaeth gref i'n nodau a'n hamcanion presennol a nodwyd yn ein [Dogfen Ymgynghori](#). Serch hynny, gwnaed amrywiaeth o gynigion i'w newid neu i'w gwella, gan gynnwys:

- Eu cryfhau i adlewyrchu anghenion y trydydd sector yn well
- Rhoi mwy o bwyslais busnes iddynt
- Cynnwys dolen i'r hierarchaeth defnydd pren
- Gwella tryloywder ein proses werthu a'n gwybodaeth ariannol ynglŷn â pherfformiad Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru
- Sicrhau nad ydynt yn gwrthdaro â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru
- Sicrhau bod hyblygrwydd yng nghyfnod y cynllun

Sut y gwnaethom wrando

Rydym yn bwriadu cadw ein nodau a'n hamcanion presennol, ond eu diwygio ychydig i adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd (a oedd yn fynych yn cyfeirio at faterion trawsbynciol yr ymdriniwyd â nhw yng nghwestiynau dilynol y ddogfen ymgynghori).

C3: A ydych yn cytuno â'n cynnig i gyflwyno datganiad newydd ochr yn ochr â'n hamcanion sy'n ymdrin yn benodol â newidiadau sylweddol i'n bwriadau cynaefu a marchnata pren?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	4	9	3	1	0
% *	23.5%	52.9%	17.6%	5.9%	0.0%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 17)

Sut y gwnaethom wrando

O ystyried yr ymateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn, rydym yn bwriadu cyflwyno datganiad newydd, ar y cyd â'n hamcanion, sy'n ymdrin â rheoli newidiadau sylweddol i'n bwriadau o ran cynaeafu a marchnata pren.

C4: Nodwch beth fyddai cyfnod rhybudd derbyniol, yn eich barn chi, a ph'un a oes gennych unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau strategol yn y dyfodol.

Roedd sylwadau ynglŷn â chyfnod rhybudd derbyniol yn amrywiol, a dywedodd llawer o'r ymatebwyr y byddai amserlenni priodol yn dibynnu ar natur y newid. Amrywai'r cynigion o bob chwarter i bum mlynedd, ond 12 mis oedd y cyfnod a gynigiwyd amlaf. Cydnabu rhai ymatebwyr y byddai materion megis iechyd planhigion a rheoli clefydau yn gofyn am ymateb brys o bosibl.

Ychydig o ymatebwyr a wnaeth argymhellion ar gyfer newidiadau strategol gogyfer â'r dyfodol. Roedd y rhai a wnaeth wedi argymhell y canlynol:

- Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn fwy ymatebol i amodau'r farchnad ac addasu ei ymagwedd yn unol â'r rheiny, er mwyn osgoi tan-gyflenwi neu orgyflenwi a allai godi neu ostwng prisiau'r farchnad.
- Dylid edrych ar gyfleoedd ar gyfer integreiddio'n fwy fertigol, er mwyn rhoi gwell gwerth am arian. Hynny yw, dylid rheoli'r ystâd coetiroedd fel cyfangorff unedig, yn hytrach nag fel cyfres o weithgareddau ar wahân.

Sut y gwnaethom wrando

Bwriadwn gyflwyno cyfnod rhybudd o 12 mis i hysbysu ein cwsmeriaid am newidiadau sy'n effeithio ar ein hymagwedd at gynaeafu a marchnata, oni bai bod sefyllfa oedd sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, megis iechyd planhigion a rheoli clefydau, neu newidiadau i'n setliad cyllido, yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i gael cyfnod byrrach. Os digwydd hyn, byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted ag y bo modd, er mwyn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Adran 2: Sut rydym yn rhoi gwybod i chi am lefelau'r pren sydd ar gael, lefelau'r pren rydym yn bwriadu eu cynhyrchu ar gyfer y cyfnod, a sut y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi (C5, C6)

C5:A ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu lefelau cynhyrchu pren o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	6	6	4	2	0
% *	33.3%	33.3%	22.2%	11.1%	0.0%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 18)

C6: Os ydych yn anghytuno â'n lefel cynhyrchu arfaethedig, nodwch pam a beth y byddech yn ei newid.

Roedd yr ymateb i'n cynnig i gynyddu lefelau cynhyrchu pren yn gymysg, ond yn fwy cadarnhaol na negyddol. Gwnaed amrywiaeth o sylwadau a chynigion, ond roeddent yn ymwneud yn bennaf â thri mater allweddol:

- Dylai lefel y cynhyrchu gael ei dylanwadu gan – a bod yn fwy ymatebol i – ffactorau'r farchnad. Hynny yw, lleihau faint o bren a gynhyrchir os yw galw a phrisiau'r farchnad yn isel.
- Rhaid i lefel y cynhyrchu fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy fel bod sicrwydd i fuddsoddiad y diwydiant pren yn ei gyfanrwydd, a rhaid iddo gael ei ystyried hefyd ar y cyd â materion strategol ehangach, megis y gostyngiad disgwylidig mewn cyflenwad yn y 2030au, a'r angen i greu coetiroedd mwy cynhyrchiol.
- O ystyried bod coedwigoedd yn dod ag amrywiaeth o fuddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, a ddylai lefel y cynhyrchu (swm) fod yn brif fesur ydych chi'ch perfformiad? A fyddai'n well edrych ar dargedau eraill er mwyn "uchafu gwerth" yn yr ystyr ehangach?

Sut y gwnaethom wrando

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn i'n cwsmeriaid a'n cyflenwyr. Rydym yn ystyried yn ofalus y sylwadau a'r adborth a dderbyniwyd, gan ystyried goblygiadau materion strategol ehangach a'r sefyllfa gyllido anodd.

Adran 3: Beth yw ein dulliau gwerthu neu pa ddulliau gwerthu y gallem eu defnyddio? (C7-C24)

C7: A ydych yn cytuno â'n rhesymeg dros gynnig Contractau Hirdymor?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	5	9	1	3	0
% *	27.8%	50.0%	5.6%	16.7%	0.0%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 18)

C8: Os ydych yn anghytuno, nodwch pam a beth y byddech yn ei newid.

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno â'n rhesymeg dros gynnig contractau hirdymor. Roedd y rhai a wnaeth sylwadau wedi tynnu sylw at y materion canlynol:

- Dylai contractau hirdymor gynnwys cymalau budd cymunedol i annog contractau i drydydd partïon yn y sector gymunedol.
- Dylai fod mwy o dryloywder ynghylch contractau hirdymor, e.e. pa fuddiannau a sbardunwyd ganddynt a ph'un a ydynt wedi dod â gwerth am arian ai peidio.
- Mae contractau hirdymor yn angenrheidiol ar gyfer buddsoddiad, ond maen nhw'n lleihau gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i ymateb i rymoedd y farchnad. Dylid rhoi cap arnynt i'w cyfyngu i'r raddfa leiaf (40%).
- Dylid edrych ar gyfleoedd i ddarparu sefydlogrwydd a diogelwch i gwmnïau sydd heb gontract hirdymor.

Sut y gwnaethom wrando

Rydym yn cydnabod bod contractau hirdymor yn bwysig i'r sector yn ei gyfanrwydd, ac rydym wrthi'n adolygu ein hymagwedd ar hyn o bryd. Rydym yn ymroddedig i gydweithio â'r sector ac i fod yn fwy agored ynghylch contractau hirdymor, presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys y buddiannau a gyflawnir.

C9: Sut y gallem ddefnyddio Contractau Hirdymor yn well wrth reoli Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru er mwyn ysgogi'r buddiannau ehangach a amlinellwyd yn *Coetiroedd i Gymru*, h.y. ysgogi'r gallu i drosglwyddo mwy o fudd i Adnodd Coedwig Cymru cyfan a'r sector coedwigaeth o ran yr economi, pobl a'r amgylchedd?

Roedd y cwestiwn hwn wedi gwahodd sylwadau a syniadau gan ymatebwyr a grynhowyd i mewn i nifer o themâu:

- Dylai fod mwy o dryloywder ynghylch contractau hirdymor a'r buddsoddiadau maen nhw'n eu sbarduno yn y sector.
- Dylid edrych ar gyfleoedd cydgysylltiedig er mwyn cynnig contractau hirdymor sy'n cwmpasu rheolaeth yr ystad yn ei chyfanrwydd. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r symudiad at gynlluniau dylunio coedwigoedd ac yn sbarduno buddsoddiad yn y sectorau i gyd.
- Dylai fod mwy o bwyslais ar gnydau coed conwydd/pren meddal masnachol sydd eu hangen ar y farchnad.
- Dylai darpariaeth y contractau hirdymor ymestyn i bob rhan o'r gadwyn gyflenwi, e.e. cwmnïau cludo ar lorïau a safleoedd prosesu, i'w gwneud yn fwy cynaliadwy.
- Dylai'r system ymgeisio fod yn haws ac yn llai beichus – mae proses ymgeisio gymhleth yn ffafrio cwmnïau mawr.
- Dylai contractau hirdymor (yn enwedig gwerthiant coed sydd ar eu traed) fod ar gael mewn pythau llai ac yn hwylus i fusnesau llai (gan gynnwys mentrau cymdeithasol). Mae gan hyn y potensial i gynyddu'n fawr y budd uniongyrchol yn lleol i'r economi, i'r bobl a'r amgylchedd drwy fanteision i'r naill a'r llall.
- Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ddenu ymgeiswyr newydd i'r diwydiant drwy gefnogi prentisiaethau a chyfleoedd dysgu parhaus.

Sut y gwnaethom wrando

Mae gennym ddi-ddordeb yn y syniad o gael gwell gwerth am arian gan contractau tymor hir drwy ehangu eu cylch gwaith i gynnwys, er enghraifft, peirianeg sifil a/neu gyfleoedd ailstocio, a bwriadwn dreialu'r dull hwn (sef "integreiddio fertigol") yn ystod y cynllun nesaf.

Byddwn yn fwy agored ynghylch y buddiannau mae contractau hirdymor yn eu cyflenwi a'r buddsoddiadau a chyfleoedd sy'n cael eu sbarduno ganddynt yn y sector. Gwnawn hyn drwy adrodd a chyfathrebu'r buddiannau hyn yn flynyddol yn dilyn ein hadolygiad blynyddol ar reoli perfformiad contractau hirdymor.

C10: A ydych o'r farn y dylem gynnig rhai Contractau Hirdymor ar gyfer cyfeintiau llai, a fyddai'n addas ar gyfer busnesau cynaeafu llai o faint neu fusnesau cynaeafu newydd, er mwyn rhoi cyfle iddynt brofi eu hunain wrth iddynt dyfu?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	5	9	3	0	1
% *	27.8%	50.0%	16.7%	0.0%	7.7%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 18)

Sut y gwnaethom wrando

Mae diddordeb go iawn gennym mewn cynigion ar gyfer contractau hirdymor micro a bach – yn enwedig lle bo marchnadoedd arbenigol ac enillion o ran gwerth – ac rydym yn canolbwyntio ein cynlluniau ar deneuo coed llydandail. Fodd bynnag, gyda'r sefyllfa gyllido anodd, bydd angen ystyried fforddiadwyedd cyffredinol yn ofalus mewn perthynas â chynnig contractau hirdymor micro a byr.

C11: A ydych yn cytuno â'n cynnig i gadw'r ymrwymiad i Gontractau Hirdymor o fewn yr amrediad o 40% i 60%?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	3	8	1	5	1
% *	16.7%	44.4%	5.6%	27.8%	6.7%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 18)

C12: Os ydych yn anghytuno, nodwch pam a beth y byddech yn ei newid

Cafwyd sylwadau amrywiol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda'r ymatebwyr yn cefnogi rhychwant o 30-60%. Roedd y rheiny oedd yn cefnogi pen uchaf y rhychwant wedi nodi'r rhesymau canlynol:

- Angenrheidiol i sicrhau bod dilyniant i gyflenwad a bod galwadau'r farchnad yn cael eu bodloni
- Angenrheidiol i sbarduno buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi i gyd

Roedd y rheiny oedd yn cefnogi graddfa is wedi rhoi'r rhesymau canlynol:

- Mae graddfa is yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Gyfoeth Naturiol Cymru ymateb i amodau'r farchnad o ran cyflenwad a galw
- Yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ymateb i sefyllfaoedd annisgwyl, e.e. clefydau planhigion

Sut y gwnaethom wrando

Rydym wrthi'n adolygu ein hymagwedd at gontractau hirdymor ar gyfer cyfnod y cynllun nesaf. Fel y nodwyd yn achos Q10, mae'n bosibl y rhoddir ystyriaeth i gontractau hirdymor llai o faint yn y dyfodol, er mwyn mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad neu pan fo enillion ehangach o ran budd cymunedol yn bosibl.

C13: A ydych yn cytuno y dylid cynnal y sefyllfa fel ag y mae (sef cymysgedd bras o 50:50) o ran Gwerthu wrth Ymyl y Ffordd a Gwerthu Coed sy'n Sefyll?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	6	3	2	6	0
% *	35.3%	17.6%	11.8%	35.3%	0.0%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 17)

C14: Os ydych yn anghytuno, nodwch pam a beth y byddech yn ei newid
Roedd cefnogaeth gymysg i gadw'r sefyllfa fel ag y mae (yn fras, 50:50). Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig:

- Dylai fod canran uwch o werthiannau coed sy'n dal i sefyll oherwydd dyna ble y gellir cyflawni'r budd mwyaf wrth fuddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.
- Mae gormod o bren yn cael ei werthu o ochr yr heol – os nad oes galw yn y farchnad am y pren hwn, yna fe'i cedwir ar ochr yr heol, a chollith bwysau a gwerth.
- Dylai fod canran uwch o werthiannau coed sy'n dal i sefyll oherwydd byddai hyn yn rhoi mwy o reolaeth i'r cwsmer dros gyflenwad boncyffion i'r melinau.
- Dylai fod hyblygrwydd rhanbarthol wrth rannu gwerthiannau ar ochr yr heol a gwerthiannau coed sy'n dal i sefyll.

Sut y gwnaethom wrando

Yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd, rydym yn adolygu ein hymagwedd at gynhyrchu uniongyrchol (sy'n arwain at werthiannau ar ochr yr heol).

C15: A ydych yn cytuno â'n bwriad i barhau i gynnal pedwar gwerthiant pren electronig bob blwyddyn?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	5	5	3	3	1
% *	29.4%	29.4%	17.6%	17.6%	8.3%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 17)

C16: Os ydych yn anghytuno, nodwch pam a beth y byddech yn ei newid
Roedd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, ond yn fwy cadarnhaol na negyddol. Ceir crynodeb o sylwadau'r ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno isod:

- Mae prosesau e-gaffael yn anodd i fentrau cymdeithasol a busnesau bach a chanolig – mae angen mwy o gymorth. Mae maint a chyfansoddiad parseli yn allweddol.
- Mae angen gwella'r system bresennol o arwerthiannau a hyrwyddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn cyflenwi gwell enillion.

- Nid yw'n eglur sut bydd y trefniadau hyn yn gweithio os bydd contractau hirdymor ar raddfa lai yn cael eu pennu a allai fod yn seiliedig ar barseli o dir/llennyrch a enwebir gan y cleient.

Sut y gwnaethom wrando

Rydym wrthi'n datblygu system e-werthu pren newydd. Bydd manyleb y system hon yn caniatáu hyblygrwydd o ran faint o werthiannau pren a gynigir yn electronig gennym yn flynyddol. Ein nod yw cynnig ystod eang o barseli, yn fwy rheolaidd, drwy broses o farchnad agored, ac anelwn at symleiddio dulliau gwerthu pan fo angen. Byddwn yn sicrhau bod busnesau bach a chanolig yn derbyn cymorth i gael mynediad at werthiannau electronig, naill ai'n uniongyrchol drwy ein tîm cymorth busnes neu drwy gydweithwyr mewn asiantaethau megis coedwigaeth a Chyswllt Ffermio.

C17: A ydych yn cytuno â'r gwelliannau hyn i'r wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi er mwyn cefnogi digwyddiadau gwerthu?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	8	8	2	0	0
% *	44.4%	44.4%	11.1%	0.0%	0.0%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 18)

C18: Os ydych yn anghytuno, nodwch pam a pha welliannau eraill yr hoffech eu gweld

Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r cwestiwn hwn, a chroesawyd y gwelliannau a gynigiwyd i'r wybodaeth a gyhoeddir gennym i gefnogi digwyddiadau gwerthu.

Sut y gwnaethom wrando

Byddwn yn gwneud gwelliannau i'r wybodaeth a gyhoeddir gennym i gefnogi digwyddiadau gwerthu. Bydd y rhain yn cynnwys cyhoeddi ar ein gwefan y lleoliadau a'r symiau y bwriadwn eu teneuo a'u llwyr gwmpo ar gyfer pob pwynt gwerthu sydd wedi ei amserlennu.

C19: A ydych yn cytuno â'n cynnig i barhau i gynnig rhywfaint o werthiannau wedi'u negodi'n uniongyrchol ar gyfer marchnadoedd arbenigol?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	6	9	2	0	1
% *	33.3%	50.0%	11.1%	0.0%	8.3%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 18)

C20: Os ydych yn anghytuno, nodwch pam a beth y byddech yn ei newid
Roedd ymateb cadarnhaol iawn i'r cwestiwn hwn a'n cynnig i barhau i roi ar gynnig rhai gwerthiannau, a drafodir, i farchnadoedd arbenigol.

Sut y gwnaethom wrando

Bwriadwn barhau i roi ar gynnig rhai gwerthiannau, a drafodir, i farchnadoedd arbenigol, a byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth am gysylltiadau a chymorth ar gael ar ein gwefan.

C21: A ydych yn cytuno bod gwerth trafodion unigol wedi'i gyfyngu i £5,000 yn gywir?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	1	3	5	6	3
% *	5.6%	16.7%	27.8%	33.3%	17.6%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 18)

C22: Os ydych yn anghytuno, nodwch pam ac i ba werth y byddech yn ei newid

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif yn anghytuno. Roedd y rhesymau a roddwyd a'r gwerth a gynigiwyd yn amrywio hefyd, gyda rhai'n awgrymu bod y ffigwr o £5k yn rhy fach i ddenu busnesau bach a chanolig ac i ganiatáu twf yn y sector, tra bod eraill yn teimlo bod £5k yn fenter rhy uchelgeisiol i'r rhan fwyaf o fusnesau bach. Cynigiwyd gwerth gwahanol o £10-20k.

Sut y gwnaethom wrando

Rydym yn ystyried amrywiaeth o opsiynau. O ystyried bod y gwerthiannau hyn yn destun trafodaethau ac nid yn ganlyniad i broses gystadleuol ar y farchnad agored, mae'n bwysig ein bod ni'n gosod gwerth priodol.

C23: Pe byddem yn cynnig arwerthiannau electronig yn y dyfodol, a fyddai gennych ddiddordeb?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	5	6	6	0	0
% *	29.4%	35.3%	35.3%	0.0%	0.0%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 17)

Sut y gwnaethom wrando

At ei gilydd, roedd ymateb cadarnhaol, ac felly mae hwn yn rhywbeth y byddwn yn symud yn ei flaen. Byddwn yn sicrhau bod busnesau bach a chanolig a mentrau

cymdeithasol yn cael cymorth i gymryd rhan mewn arwerthiannau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gydweithwyr mewn asiantaethau megis coedwigaeth a Chyswllt Ffermio.

C24: Pa fath o wasanaeth y byddech am ei gael pe byddem yn cynnig cyfaint penodedig o werthiannau wedi'u rhaglennu fel gwerthiannau “a negodwyd â chwsmeriaid”, er enghraifft, drwy Goetiroedd a Chi? Hoffem glywed eich syniadau.

Cafwyd nifer o sylwadau a syniadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Rhoddir crynodeb o gwmpas themâu/pynciau isod.

- Dylai fod mwy o ymwneud gan y 'swyddog lleol/ardal' yng Nghyfoeth Naturiol Cymru, i gefnogi mwy o ymgysylltu â chymunedau a busnesau lleol a mwy o gyfleoedd contract iddynt.
- Dylid ystyried gwerthu llennyrch ar sail y defnydd gorau o'r pren, neu'r datrysiadau mwyaf dyfeisgar, yn hytrach na'r enillion ariannol yn unig, yn arbennig mewn perthynas â'r hierarchaeth garbon a dod â buddiannau yn lleol.
- Dylid rhoi rhagor o bwyslais ar danwydd pren/cynnyrch crefft bychan/marchnadoedd cynnyrch nad ydynt a wnelo â choedwigoedd, er mwyn sbarduno twf yn y sector cymunedol.
- Ni ddylai'r cynnig menter gymunedol gael ei gyfyngu i safleoedd aneconomaidd – mae hyn yn annheg ac yn anghyfiawn.
- Dylid fod mwy o le gan reolwyr cyfrif/cynrychiolwyr i wella prosesau caffael a rheolaeth contractau, gyda mwy o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau economaidd-gymdeithasol yn y farchnad.
- Mae angen rhagor o waith i ddeall y berthynas rhwng Coetiroedd a Chi a'r Cynllun Marchnata Pren. Dylai fod un weithdrefn ar gyfer cael mynediad at gontract hirdymor i goed sy'n sefyll ar barsel o dir ar gyfer mentrau cymdeithasol a phreifat. Gellir defnyddio Coetiroedd a Chi wedyn i gael hawl ychwanegol.
- Dynodi cyfran o bren o'r rhaglen gynaeafu fyddai'r ffordd orau, o bosibl, o ddarparu at ddefnydd y gymuned. Mae dechrau ar 5,000 m³ y flwyddyn, gydag uchafswm o 20,000 m³, yn swnio'n rhesymol.
- Ar gyfer busnesau llai o faint a mentrau cymdeithasol, dylid ystyried trefniadau prisio a gynllunnir i hybu buddsoddiadau cyfalaf ac a ddefnyddir ar werthiannau mawr, tymor hir o goed sy'n sefyll. Caiff y rhain anawsterau sylweddol yn aml wrth gael gafael ar gyfalaf cychwyn busnes.

Sut y gwnaethom wrando

Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried y syniadau a'r awgrymiadau defnyddiol a wnaed ac yn edrych ar yr opsiynau sydd ar gael i symud y rhain yn eu blaenau drwy'r Cynllun Marchnata Pren a/neu Goetiroedd a Chi (ein cynllun i hwyluso mynediad at dir a reolir gennym ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau, prosiectau ac arolygon).

Adran 4: Sut rydym yn pennu ein dull gweithredu o ran gwerthu ein cynhyrchion pren mewn ffordd sy'n “ddeallus o ran carbon” (C25, C26)

C25: A ydych yn cytuno y dylem barhau i ddilyn ein “hierarchaeth defnydd dewisol” er mwyn helpu i leihau ôl troed carbon Cymru?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
--	---------------	--------	---------------------------------	-----------	------------------

Nifer yr ymatebion	8	8	2	1	1
% *	38.9%	38.9%	11.1%	5.6%	9.1%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 18)

Sut y gwnaethom wrando

Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r cwestiwn hwn, ac felly bwriadwn barhau i ddilyn ein "hierarchaeth defnydd dewisol" yn ein cynllun nesaf.

C26: Beth yn rhagor y gallwn ei wneud i sicrhau'r budd gorau posibl o adnodd pren Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli carbon?

Roedd nifer o sylwadau a syniadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Rhoddir crynodeb o gwmpas themâu/pynciau isod.

- Helpu gyda datblygu defnydd gwahanol i gynnyrch terfynol a ddefnyddiwyd.
- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar blannu coed conwydd masnachol er mwyn amsugno carbon yn gyflym.
- Manylebau torri gwell er mwyn cael y "gwerth am arian" gorau am bob cnwd.
- Dylid gweithredu egwyddor hierarchiaeth pren ym mhob sefyllfa, gan gymryd ymagwedd "cylch bywyd".
- Dylid rhoi gwerth ar garbon fel cynnyrch coedwig y gellir ei fasnachu – byddai hyn yn darparu incwm arall o goetiroedd a fyddai'n sbarduno creu coetiroedd.
- Mae ambell i gymhelliad ariannol y tu hwnt i reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn milwriaethu yn erbyn yr hierarchiaeth defnydd a ddymunir, e.e. mae'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy yn annog defnydd gwastraffus o bren at ddiben cynhesu yn y sector diwydiannol.
- Angen meddwl am sut i sbarduno defnydd hirdymor o bren, e.e. at ddibenion strwythurol.
- Ni roddir digon o sylw i gynhyrchu a defnyddio coed tân o ansawdd uchel yn lleol.
- Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried cynnwys matrices i leihau faint o filltiroedd y teithir o'r goedwig i'r felin, gyda pholisi llym o gymharu enillion gydag ôl troed carbon.

Sut y gwnaethom wrando

Rydym yn ystyried yr ystod o sylwadau a syniadau defnyddiol a dderbyniwyd ac yn edrych ar sut y gallwn fynd i'r afael â nhw yn ein cynllun nesaf.

Adran 5: Sut rydym yn cyhoeddi ein ffigurau perfformiad o ran gwerthiannau

C27: A ydych yn cytuno â'n cynnig i gynnwys ffigurau perfformiad gwerthu ôl-weithredol yn ein Cynllun Gwerthu Blynyddol? Nodwch beth yr hoffech i ni ei gynnwys.

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	3	10	2	1	1
% *	17.6%	58.8%	11.8%	5.9%	7.1%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 17)

At ei gilydd, bu ymateb cadarnhaol iawn i'n cynnig i gynnwys ffigurau perfformiad gwerthu ôl-weithredol yn ein Cynllun Gwerthu Blynyddol. Gwnaed yr argymhellion canlynol hefyd:

- Dylid rhannu gwybodaeth yn gynnyrch sy'n sefyll a chynnyrch ar ochr yr heol (e.e. boncyffion, bariâu, ffensys a biomas) a pheth rhannu rhwng rhywogaethau.
- Dylai'r ffigurau perfformiad gwerthu ôl-weithredol fesul lot gynnwys:
 - Nifer y cynigion
 - Cymharu'r cynnig a phrsiad Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Cynnig uchaf
 - Cynnig cymedrig
- Dylai fod gwybodaeth ar b'un a yw safleoedd yn gwneud elw neu golled, a gwahaniaethau pris rhanbarthol.

Sut y gwnaethom wrando

Rydym yn ymroddedig i adrodd ar ffigurau perfformiad gwerthu ôl-weithredol, ac rydym eisoes yn gweithio gyda Grŵp Busnes y Sector Coedwigaeth er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen.

C28: Beth fyddai eich mesur o lwyddiant (dangosydd perfformiad allweddol) wrth roi ein Cynllun Marchnata Pren ar waith yn y dyfodol?

Roedd nifer o ymatebion manwl iawn i'r cwestiwn hwn, a grynhoir isod:

- Dangosydd perfformiad allweddol o ran gwerthu i fusnesau bach a chanolig a mentrau cymunedol, a thracio lluosyddion cymdeithasol er mwyn dwyn y buddiannau niferus a ddaw yn sgil cynhyrchu coedwigol a defnydd pren.
- Nodi manylion y ffigwr cyfansymiol ar gyfer yr hyn a gynaeafwyd fesul cynnyrch, nid categorïau yn unig, a darlun cliriach o'r raddfa adfer ar gyfer y rhaglen gynaeafu flynyddol.
- Gwybodaeth am gywirdeb prisiaid Cyfoeth Naturiol Cymru o gymharu â'r pris a gyflawnwyd ar y farchnad.
- Dylai'r pwyslais cyffredinol fod ar gyflawni'r hyn a nodir yn y Cynllun Gwerthiant, ar amser.
- Y budd ariannol gorau i Gyfoeth Naturiol Cymru ac felly pobl Cymru. Cyd-fynd â'r dangosyddion allweddol yng Nghoetiroedd i Gymru.
- Dylid ystyried y gofynion adrodd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bil Amgylchedd arfaethedig, a'u perthnasedd i'r Cynllun Marchnata Pren.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i ymddiried i reoli ased cyhoeddus, ac felly mae tryloywder ariannol yn hanfodol bwysig.

Sut y gwnaethom wrando

Bwriadwn weithio gyda Grŵp Busnes y Sector Coedwigaeth i ystyried yr opsiynau, gan ystyried beth a allwn ei ddarparu a beth fydd yn ddefnyddiol yn nhyb y sector. Gobeithiwn ddatblygu ein dangosyddion perfformiad allweddol i adlewyrchu'r buddiannau amlwrpas a gyflenwir gan goedwigoedd (fel sy'n cael ei gyfleu yn *Safon Coedwigaeth y DU* a strategaeth *Coetiroedd i Gymru*).

Adran 6: Beth yw ein safonau gwasanaethau cwsmeriaid neu beth y gallent fod (C29)

C29: A ydych yn cytuno â'n cynnig y bydd ein Cynllun Marchnata Pren newydd yn dod â'r holl ymrwymadau a'r holl wybodaeth i'n cwsmeriaid a'n contractwyr pren ynghyd?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nifer yr ymatebion	3	8	3	3	1
% *	17.6%	41.2%	17.6%	17.6%	7.1%

* % o blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (cyfanswm yr atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn oedd 17)

Roedd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, ond roedd mwy o bobl yn cytuno nag yn anghytuno.

Sut y gwnaethom wrando

Byddwn yn defnyddio ein Cynllun Marchnata Pren ar y cyd â'n safonau gofal i gwsmeriaid a'n safonau gwasanaeth i dynnu ynghyd yr holl ymrwymadau cynaeafu a marchnata perthnasol, a gwybodaeth, ar gyfer ein cwsmeriaid a'n contractwyr pren. Credwn y bydd yr ymagwedd hon yn cyd-fynd â Siarter Cwsmeriaid Pren y Comisiwn Coedwigaeth, sy'n cwmpasu Lloegr a'r Alban, gan gynnig dilyniant i fusnesau sy'n gweithio ledled y DU.

Yn olaf

C30: A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud?

Cafwyd ystod o sylwadau defnyddiol a oedd yn cwmpasu materion megis:

- defnyddio prosesu data electronig at ddiben diogelwch a chyflawni
- darparu cyfleoedd hyfforddiant a rennir ledled y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn hyrwyddo arfer orau
- dyfodol yr ystad coetiroedd fel bod gan gwsmeriaid yr hyder i fuddsoddi
- p'un a oes gan Gyfoeth Naturiol Cymru bolisi ar "werthiannau" sy'n cwmpasu cynnyrch eraill ar wahân i bren

Y camau nesaf

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd. Mae'n debygol erbyn hyn y byddwn yn cyhoeddi Datganiad Marchnata Pren interim ar gyfer 2016-17, ac yna Cynllun Marchnata Pren pum mlynedd o hyd ar gyfer y cyfnod 2017-22. Y prif reswm am hyn yw na allwn ymrwymo i gynllun pum mlynedd tan fod yr adolygiadau gwasanaeth wedi cael eu cwblhau (gweler yr adran Materion Allweddol am ragor o wybodaeth).

I gloi...

Diolch i chi unwaith eto am eich diddordeb yn ein dull o gyflawni ein gwaith ar ran Cymru, ac am ddarllen yr adroddiad cryno hwn ar ganlyniadau ein hymgyngoriad cyhoeddus.

Dymunwn yn dda i chi yn eich meysydd gwaith a'r meysydd sydd o ddiddordeb ichi, a gobeithio y byddwch yn parhau i ymwneud â ni ble bynnag y bydd ein gwaith yn cyd-daro.

Atodiad 1 – Rhestr o ymatebwyr

Cawsom 18 o ymatebion i'n hymgyngoriad ar gynigion ar gyfer ein Cynllun Marchnata Pren. Isod ceir rhestr o sefydliadau a ymatebodd. Gwnaethom nodi yn ein Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad na fyddwn yn rhyddhau enwau unigolion a ymatebodd. Cafwyd hefyd bum cais gan sefydliadau am inni gadw eu hymatebion yn gyfrinachol.

Cyfeirnod yr Ymateb	Sefydliad
TMP001	Black Mountain Woodfuels
TMP002	Golygfa Gwydir
TMP003	Bedmax Cyf
TMP005	UK Forest Products Association
TMP006	ETC Sawmills Cyf
TMP008	Confor
TMP010	Panel Cyngori Strategaeth Coetiroedd
TMP012	Tilhill Forestry
TMP014	Swyddog Coed Cymru Cyngor Sir y Fflint
TMP016	CLA Cymru
TMP018	Sefydliad Siartredig y Coedwigwyr